Yn ystod y tymor cawsom nifer o gemau pêl-droed. Y Sadwrn cyntaf yn Rhagfyr cawsom chwarae'n erbyn y Cochion a hyfryd oedd cael dod adref i'r Penrhyn yn goncwerwyr o bum gôl i ddwy. Rhaid i ni hefyd longyfarch plant yr ysgol a wnaeth waith mor dda yn y chwaraeon traws gwlad a gynhaliwyd ym Mhenparcau beth amser yn ôl. Yn y ras i ferched daeth Rachel Bennington yn gydradd gyntaf a daeth Michael Hutchinson yn drydydd yn y ras i fechgyn. Daeth tim bechgyn yr ysgol yn ail.

Mae'r plant i gyd yn edrych ymlaen at ymweliad Sion Corn ac yn llawenhau ar yr un pryd am ein bod wedi anfon yr arian a gasglwyd yn ein Cyfarfod Diolchgarwch i Gartref Plant Amddifad gan wneud eu Nadolig hwythau'n y Cartref yn un hapusach o ryw ychydig.